

LLYFR DU CYMRU FYDD

The Black Book of the New Wales

Dros Gymru gwell

Llywelyn ap Gwilym, Caerdydd, Ionawr 2020

© 2020 Llywelyn ap Gwilym

Rhagair

Mae'r pamffled hwn wedi'i ysgrifennu yn ysbryd meddwl iwtopaidd: ei bwrpas yw cwestiynu'r *hyn sydd*, a rhagweld *beth all fod*. Mae rhai o'r syniadau a gyflwynir yn wyriad radical o'r *status quo*, tra bod eraill yn dod yn rhan o feddwl confensiynol y chwith. Yn yr un modd, mae gan rai gynseiliau mewn sefydliadau a chyfundrefnau presennol neu mewn rhai a fu, tra bod eraill ond wedi cael eu treialu, neu heb fodoli eto. Er bod y manylion ynghylch sut y gallwn gyrraedd o'r *fan hon* i'r *fan honno* yn bwysig, mewn gwirionedd yn hanfodol os ydym byth am gyrraedd y gyrchfan honno, i ddechrau y prif nod yw disgrifio sut olwg gallai fod ar *fan honno*.

Fel mae Rhuannedd Richards yn ddisgrifio dull y diweddar AC Steffan Lewis: “ei feddylfryd bob amser oedd bod angen trechu anobaith neu difaterwch drwy gyflwyno syniadau newydd a gweledigaeth glir.”[1] Y pamffled hwn yw fy ymgais innau i wneud hynny.

[1] Rhuannedd Richards, Gwladgarwr Gwent (t41)

GWIREBAU

> “An absence is how we become surer
> of what we want” - R. S. Thomas[2]

Yng Nghymru Fydd bydd gan pawb hawl cyfartal i’r dulliau materol, cymdeithasol a diwylliannol sy’n angenrheidiol i fyw bywyd llewyrchys; bydd gan genedlaethau’r dyfodol o leiaf yr un hawl â’r genhedlaeth bresennol.

Yng Nghymru Fydd bydd gan bawb hawl cyfartal i’r dulliau angenrheidiol i gymryd rhan ystyrlon mewn penderfyniadau sy’n effeithio ar eu bywydau.

Yng Nghymru Fydd bydd pobl yn cydweithredu gyda’i gilydd oherwydd ymrwymiad gwirioneddol i les pobl eraill, a’r ymdeimlad mai dyna’r peth iawn i wneud.

[2] R. S. Thomas, Identity, Environment, Deity (p178)

Rhagymadrodd

> “Dim ond argyfwng - gwirioneddol neu ganfyddedig - sy’n achosi newid go iawn. Pan fydd yr argyfwng hwnnw'n digwydd, mae'r camau a gymerir yn dibynnu ar y syniadau sydd ar gael. Dyna, yn fy marn i, yw ein swyddogaeth sylfaenol: datblygu dewisiadau amgen i bolisïau presennol, eu cadw'n fyw ac ar gael nes bydd yr amhosib yn wleidyddol yn dod yn anochel yn wleidyddol. ”- Milton Friedman[3]

> “Mae'n anoddach o lawer llunio gofynion unoli o amgylch dewisiadau amgen cadarnhaol nag o amgylch datgymalu'r trefniadau gormesol presennol.” - Erik Olin Wright[4]

Mae angen Cymru newydd: nid yw'r sefyllfa bresennol yn ddaliadwy. Mae Cymru’n wlad gyfoethog, ond mae ei phobl yn byw mewn tlodi. Er ein bod yn rhan o'r bumed economi fwyaf yn y byd, mae chwarter o’n pobl yn byw mewn tlodi. Mewn rhai ardaloedd mae cyfran y plant sy'n byw mewn tlodi yn un o bob dau. Mae cynhyrchiant Cymru, fel y’i mesurir gan ychwanegiad gwerth crynswth (*gross value add*) y pen, yn llai na thri chwarter cyfartaledd y DU, tra bod cynhyrchiant Dinas Llundain 24 gwaith yn fwy na’n rhanbarth tlotaf, Ynys Môn[5]. Mae Cymru yn allforiwr net o ynni, ond mae cymunedau'n byw mewn tlodi tanwydd. Mae ein disgwyliad einioes yn

[3] Milton Freedman, Capitalism and Freedom (t*ix*)
[4] Erik Olin Wright, How to Be an Anticapitalist in the 21st Century (tt65-66)
[5] ONS, Regional economic activity by gross value added (balanced), UK: 1998 to 2017

gostwng. Mae'r gyfradd hunanladdiad yn cynyddu, yn enwedig ymysg pobl ifanc. Mae'r DU yn methu Cymru, ac mae Cymru yn methu ei dinasyddion.

Er hynny, nid yw hyn yn anochel. Mae Cymru newydd yn bosibl. Cymru newydd sy'n llewyrchus, sy'n garedig, sy'n deg ac sy'n gynaliadwy.

Mae newid yn dod: mae hyn yn anochel. Mae Brexit yn achosi argyfwng cyfansoddiadol trwy gyflymu chwalu'r Deyrnas Unedig: mae'r Alban yn gorymdeithio tuag at annibyniaeth, ac mae'r galwadau am arolwg barn a fydd yn arwain at ailuno Iwerddon yn cynyddu pob dydd. Yn fuan iawn, byddwn ni yng Nghymru yn wynebu'r dewis amlwg: cael ein hymgyorffori o fewn Lloegr Fwyaf, Lloegr sy'n troi i mewn arni'i hun, neu "hawlio ein lle fel cenedl cyfartal ymhlith cenhedloedd Ewrop a gweddill y byd"[6]. Ond os annibyniaeth, beth wedyn?

Mae'r pamffled hwn yn ceisio ateb y cwestiwn hwnnw, trwy ganfod gweledigaeth amgen gadarnhaol ar gyfer Cymru Fydd. Y nod yw disgrifio'r math o wlad y gallai Cymru fod. Mae angen y weledigaeth hon o Gymru gwell fel y gallwn osgoi'r camgymeriad o ddyblygu'r anghydbwysedd, anghydraddoldebau ac annhegwch y DU pan fydd Cymru yn ennill ei hannibyniaeth, pan fydd sioc tranc y DU yn bwrw, er ar raddfa lai. Mae angen y weledigaeth hon o Gymru Fydd er mywn i Gymru ddod yn wir annibynnol pan fydd yn ennill ei hannibyniaeth.

> "Mae annibyniaeth go iawn yn gyfnod o greadigaeth newydd a gweithredol: pobl yn ddigon sicr ohonynt eu

[6] Adam Price, araith at gorymdaith AUOBCymru dros annibyniaeth, Mai 2019, Caerdydd

hunain er mwyn gollwng eu beichiau, gan wybod y gorffennol fel y gorffennol, fel hanes y gellir ei siapio, ond gydag ymdeimlad hyderus newydd o'r presennol a'r dyfodol, lle mae'r ystyron a'r gwerthoedd pendant yn cael eu gwneud. "- Raymond Williams[7]

[7] Raymond Williams, Who Speaks for Wales? Nation, Culture, Identity (t9)

Gwerthoedd normadol y chwyldro Cymreig[8]

> “Mae pob chwyldro llwyddiannus yn y gorffennol wedi bod yn chwyldro neilltiolaidd o dosbarthiadau lleiafrifol yn ceisio mynnu eu buddiannau penodol hwythau dros fuddiannau’r gymdeithas gyfan.” - Murray Bookchin[9]

> “Gall y chwyldro cyffredinoledig greu cymuned unedig, amlochrog, yn organig.” - Murray Bookchin[10]

Chwyldro cyffredinoledig fydd chwyldro Cymru - cyflawn a chyfan. Ni fydd ar gyfer y dosbarthiadau lleiafrifol, ni fydd yn ôl y mwyafrif, yn hytrach bydd yn ôl ac ar gyfer cyfranwydd y boblogaeth. Canlyniad y chwyldro fydd bod gan bawb y dulliau materol, cymdeithasol a diwylliannol i fyw bywyd hapus, ystyrlon a boddhaus - bywyd llewyrchus. Bydd tegwch yn ganlyniad angenrheidiol i natur gyfranogol y chwyldro. O ganlyniad, bydd pobl yn cydweithredu â'i gilydd, yn lle cystadlu, a hyn oherwydd ymdeimlad dwfn mai dyna'r peth iawn i'w wneud. Dyma'r tri gwerth normadol y bydd Cymru Fydd yn cael eu hadeiladu: tegwch; democratiaeth; a chymuned.[11]

---

[8] Trwy’r pamffled hwn, bydd yr ymadrodd “chwyldro” yn cael ei ddefnyddio yn ei ystyr gymdeithasegol ehangach fel newid mewn strwythur a natur cymdeithas

[9] Murray Bookchin, Post-Scarcity Anarchism (t2)

[10] Murray Bookchin, Post-Scarcity Anarchism (t2)

[11] Trwy’r holl pamffled bydd “cymuned” yn cael ei defnyddio i olygu unrhyw uned gymdeithasol lle mae pobl yn teimlo

Tegwch

Mae gan Gymru hanes hir o sefyll dros y werthoedd o cydraddoldeb a thegwch. Bu terfysg Rebecca a'i Merched yn ganlyniad i annhegwch canfyddedig y tollbyrth a'r trethi uwch, cododd Merthyr oherwydd yr annhegwch ymhlyg mewn gostyngiadau cyflog a diswyddiadau yn y gwaith haearn, tra sefydlodd Aneurin Bevan y GIG i roi hawl cyfartal i ofal iechyd i bawb. Mae cydraddoldeb a thegwch yn ein hanes ac yn ein DNA.

Ond beth yn union yw cydraddoldeb a beth yw tegwch? Nid yw cydraddoldeb yn ymwneud â sicrhau canlyniadau cyfartal neu gyfle cyfartal, ond yn hytrach mae'n ymwneud â sicrhau hawl cyfartal i'r holl ddulliau sy'n angenrheidiol i fyw bywyd hapus, ystyrlon a boddhaus. Yn fras, mae tegwch yn ymwneud â sicrhau nad oes neb yn cael ei drin yn wahanol neu'n llai ffafriol oherwydd rhyw, hil, anabledd neu unrhyw briodoledd moesol amherthnasol arall. Mae'n ymwneud â phawb yn cael hawl cyfartal i'r dulliau hyn, ta waeth pwy ydynt ac o ble maent yn dod. O ganlyniad felly, rhaid ystyried cydraddoldeb a thegwch ar draws cenedlaethau.

Fel y trafodwyd yn y rhagymadrodd i'r pamffled hwn, ar hyn o bryd mae Cymru yn gymdeithas annheg iawn. Yn lle gofyn sut mae Cymru yn annheg, y cwestiwn mwyaf perthnasol yw pam mae Cymru yn annheg?

Mae'r naill llywodraeth ar ôl y llall yn y DU wedi canolbwyntio buddsoddiad a chyfle, ac o ganlyniad gyfoeth a dylanwad, ar de-dwyrain Lloegr, ar draul rhanbarthau a chenhedloedd ymylol y DU, a, thrwy ddinistrio'r amgylchedd, er anfantais i

---

solidariaeth a rhwymedigaethau i'w gilydd. Er yn aml yn wir, nid oes angen i "gymuned" gael ei gwreiddio yn ddaearyddol

cenedlaethau y dyfodol. Yn ideolegol, mae'r DU yn un o'r gymdeithasau mwyaf neoryddfrydol o'r holl gymdeithasau cyfalafol[12], ac felly o ystyried y tensiwn cynhenid rhwng y rhai

[12] Defnyddir y termau “cyfalafiaeth”, “sosialaeth” a “gwladoliaeth” i ddisgrifio tri math amgen o strwythur economaidd - tri dull i “drefnu'r cysylltiadau pŵer y mae adnoddau economaidd yn cael eu dyrannu, eu rheoli a'u defnyddio.” (t120)
“Mae cyfalafiaeth yn strwythur economaidd lle mae’r dulliau cynhyrchu yn eiddo preifat ac mae dyraniad yr adnoddau at wahanol ddibenion cymdeithasol yn gael ei gyflawni trwy arfer pŵer economaidd. Mae buddsoddiadau a rheoli cynhyrchu yn ganlyniad i arfer pŵer economaidd gan berchnogion cyfalaf.” (t120)
“Mae gwladoliaeth yn strwythur economaidd lle mae'r wladwriaeth yn berchen ar y dulliau cynhyrchu ac mae dyraniad a defnydd yr adnoddau at wahanol ddibenion cymdeithasol yn gael ei gyflawni trwy arfer pŵer y wladwriaeth. Mae swyddogion y wladwriaeth yn rheoli’r broses fuddsoddi a’r cynhyrchiad trwy ryw fath o fecanwaith gweinyddol a weithredir gan y wladwriaeth.” (t120)
“Mae sosialaeth yn strwythur economaidd lle mae’r dulliau cynhyrchu yn eiddo cymdeithasol ac mae dyrannu a defnyddio’r adnoddau at wahanol ddibenion cymdeithasol yn cael ei gyflawni trwy arfer yr hyn y gellir ei alw'n 'bŵer cymdeithasol'...pŵer sydd â’i rym yn ei allu i ysgogi pobl i weithredu mewn sawl modd cydweithredol a gwirfoddol mewn cymdeithas sifil.” (t121)
Gan ddefnyddio'r diffiniadau hyn, mae'n amlwg nad oes unrhyw economi go iawn heddiw a fu ar un adeg yn un pur gyfalafol, pur gwladol nag yn un pur sosialydd. Yn lle hyn mae pob economi yn gymysgedd o'r tri newidyn. “Mae defnyddio’r ymadrodd syml 'cyfalafiaeth' heb ei addasu...felly yn llaw-fer ar gyfer rhywbeth fel 'strwythur economaidd hybrid lle mai chyfalafiaeth yn brif ffordd o drefnu gweithgaredd economaidd

sy'n berchen ar gyfalaf a'r rhai sydd ddim, a'r anghydbwysedd rhwng pŵer llafur a pŵer cyfalaf, nid yw'n syndod bod anghydraddoldeb mawr yn bodoli: mae'r cyfoethogion yn gyfoethog, yn rhannol, oherwydd bod y tlodion yn dlawd. Roedd yr economeg *trickle-down* (fel y'i gelwir) fod i dynnu'r rheini ar waelod cymdeithas i fyny, ond mae wedi methu'n llwyr: yn ôl comisiwn symudedd cymdeithasol Llywodraeth y DU ei hun, mae anghydraddoldeb bellach wedi ei "blannu o adeg geni i'r adeg gweithio", gyda symudedd cymdeithasol yn aros yn yr unman ystod bron cyfnod o fywyd.[13] Rydym yn gweld yr anghydraddoldeb hwn ar lefel y DU rhwng cenhedloedd a rhanbarthau, ond hefyd ar lefel fwy lleol o fewn cenhedloedd a rhanbarthau.

Yng Nghymru, ar ôl ugain mlynedd o ddatganoli, ac er gwaethaf tra-arglwyddiaeth ddi-dor y Blaid Lafur (sydd â'i gogwydd tua'r chwith) yn y polau, mae'r Senedd wedi defnyddio ei phwerau cyfyngedig i ail-greu'r anghydraddoldeb hwn. Mae anghydraddoldeb llwyr yn amlwg yn ddaearyddol, a thrwy strwythur ein cymdeithas. Er engrhaifft, mae'r ffocws ar Gaerdydd, er anfantais i weddill y wlad, wedi arwain at alltudiad ieuenctid o'r Fro Gymraeg oherwydd diffyg buddsoddiad ac o ganlyniad diffyg cyfleoedd. Mae'r ffocws ar fuddsoddiad uniongyrchol o dramor wedi dod â swyddi ansicr, efo cyflogau isel sydd ag angen sgiliau isel, i ardaloedd ôl-ddiwydiannol de Cymru ar gost gyhoeddus anferth. Mae'r dull presennol wedi methu.

Pam mae'r anghydraddoldeb hwn yn bwysig? Fel y trafodwyd yn helaeth gan Richard Wilkinson a Kate Pickett yn eu llyfr

---

ynddo.'" (t125) Am ddisgrifiad manylach gweler bennod 5 o Envisioning Real Utopias gan Erik Olin Wright

[13] Llywodraeth y DU, Comisiwn Symudedd Cymdeithasol

The Spirit Level, uwchlaw lefelau isel o cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC), sef lefelau llawer is nag sydd gennym yng Nghymru heddiw, mae cymdeithas sydd yn fwy anghyfartal yn arwain at ganlyniadau iechyd a chymdeithasol sy'n waeth na chymdeithas fwy cyfartal, waeth beth yw lefel cyfartalog y ffyniant. Mae'r DU, er ei bod yn gymdeithas lewyrchus iawn, hefyd yn anghyfartal iawn, sy'n arwain at ganlyniadau gwaeth i bawb. Felly gellir gweld anghydraddoldeb sy'n anhygoel o annheg.

Bydd Cymru Fydd yn deg ac yn gyfartal oherwydd bydd gan bob dinesydd hawl cyfartal i'r dulliau materol, cymdeithasol a diwylliannol i fyw bywyd llewyrchus, ni waeth ble maent yn byw, pa iaith maent yn ei siarad, eu rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol, eu hethnigrwydd, eu golwg neu anabledd. Bydd gan genedlaethau'r dyfodol o leiaf yr un hawl i'r dulliau hyn i fyw bywyd llewyrchus â'r genhedlaeth bresennol.

Tegwch sy'n gyrru'n uniongyrchol y ddau werth normadol arall, sef democratiaeth a chymuned. Mewn cymdeithas deg ni fydd y math o ecsbloetio sy'n sail i gymdeithasau cyfalafol. Tra bod "ansawdd cysylltiadau cymdeithasol yn dirywio mewn cymdeithasau llai cyfartal"[14] a "chymdeithasgarwch fel y'i mesurir o ran cryfder bywyd cymunedol...yn dirywio"[15], heb yr angen i ennill ar draul pobl eraill byddwn yn gweld yr effaith groes: bydd teimladau o gydweithrediad, undod a chymuned yn cryfhau ac yn gwreiddio. Ac mewn cymdeithas deg bydd gan bobl "awtonomiaeth o ran cael reolaeth ystyrlon dros eu bywydau eu hunain"[16] - un o'r dulliau cymdeithasol i fyw

[14] Richard Wilkinson and Kate Pickett, The Spirit Level (t51)
[15] Richard Wilkinson and Kate Pickett, The Spirit Level (t199)
[16] Erik Olin Wright, How to Be an Anticapitalist in the 21st Century (tt12-13)

bywyd llewyrchus. Mae gwir fodolaeth yr awtonomiaeth hon yn arwain yn uniongyrchol at y math o ddemocratiaeth gyfranogol a drafodir nesaf.

Democratiaeth

Ar 4 Tachwedd 1839 gorymdeithiodd 10,000 o Siartwyr drwy Gasnewydd yn galw am chwech peth, yn eu plith yr hawl i bleidleisio ar gyfer pob dyn dros un ar hugain oed. Dyma ddechreuad democratiaeth gynrychioliadol, ond nid gwir democratiaeth.

Felly pam na ellir ystyried Cymru yn democratiaeth? Mae Cymru yn democratiaeth gynrychioliadol mewn enw, yn yr ystyr ei bod yn ethol cynrychiolwyr sy'n eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin y DU, y hanner democrataidd o senedd dwysiambraidd y DU. Fodd bynnag, yn ein sefyllfa bresennol, mae Cymru dim ond yn ethol 40 AS allan o'r gyfanswm o 650, ac felly mae'n cael y llywodraeth y mae'r mwyafrif (Seisnig) yn pleidleisio drosti. Er enghraifft, nid yw Cymru erioed wedi pleidleisio dros lywodraeth Geidwadol ond bu'n rhaid iddi ddioddef ymosodiadau difrifol o dan Thatcher yn ogystal â stranciau Cameron, May a Johnson. Yn wir, fel y gwnaed yn hynod amlwg gan Dryweryn, hyd yn oed pan oedd cynrychiolwyr etholedig o Gymru bron yn unfrydol yn eu gwrthwynebiad, llwyddodd dymuniadau mwyafrif Lloegr i ennill y dydd, a boddwyd cwm, a dinistriwyd cymuned, a bu farw rhan fach o'r diwylliant brodorol.

Ond beth am ddatganoli? Mae Daniel Evans yn datblygu'r ddadl nad oedd datganoli "wedi'i gynllunio i adfywio democratiaeth yng Nghymru...Ni chafodd ei gynllunio i arwain at ragor o bwerau."[17] Fel enghraifft glasurol o Chwyldro

[17] Daniel Evans, Devolution's passive revolution, IWA

Goddefol Gramsciaidd, cynlluniwyd datganoli i gynnal y sefyllfa fel y mae.

Yn fwy sylfaenol, a llawn mor bwysig, yw'r ffaith nid yw pleidlais pawb yr un mor bwysig. Mae'r system hynafol *First Past the Post* yn San Steffan yn golygu bod cyfran sylweddol o bleidleisiau'r etholwyr yn ddiystyr o ran canlyniad, gan adael cyfran sylweddol o'r etholwyr yn ddi-lais. Ond yn fwy sylfaenol fyth, nid yw democratiaeth gynrychioliadol ond yn rhywbeth sy'n ffinio ar fod yn wir ddemocratiaeth, yn enwedig mewn cymdeithas gyfalafol, gan ei bod yn agored i lygredd a buddiannau breintiedig. Mae modd i gynrychiolwyr etholedig gael eu dylanwadu gan fuddiannau'r elit cul gyfalafol, ac mae hyn yn arwain at greu elit gwleidyddol hunangeisiol, sy'n hyrwyddo buddiannau eu cefnogwyr er mwyn hyrwyddo eu buddiannau eu hunain. Dyma sefyllfa, fel yn y DU, sy'n gwaethygu pan fo rhannau sylweddol o'r cyfryngau yn eiddo i'r elit bach hwn, sydd yn mynd ati'n fwriadol i gadw'r etholwyr yn anwybodus neu i'w camarwain.

Y gwrthwenwyn yw ddemocratiaeth wir, gyfranogol. "Mae cymdeithas ddemocrataidd...yn mynnu y dylai pobl allu cymryd rhan yn ystyrlon ym mhob penderfyniad sy'n effeithio'n sylweddol ar eu bywydau...Nid yw hyn yn awgrymu bod pawb mewn gwirionedd yn cymryd rhan yn gyfartal mewn cyd-penderfyniadau, ond nad oes unrhyw rhwystrau gymdeithasol anghyfartal i'w cyfranogiad."[18] Mae cymdeithas wirioneddol ddemocrataidd yn gymdeithas lle mae pobl yn gwneud, neu maent yn rhan o wneud penderfyniadau, ynghylch y pethau sy'n effeithio arnynt. Os yw penderfyniad yn effeithio ar un person yn unig, yna dylent *nhw eu hunain*

[18] Erik Olin Wright, How to Be an Anticapitalist in the 21st Century (t16)

allu gwneud y penderfyniad hwnnw heb ymyriad. Os yw penderfyniad hefyd yn effeithio ar bobl eraill, yna dylent i gyd fod yn bartïon i'r penderfyniad, neu gytuno i adael i'r lleill wneud penderfyniadau ar eu rhan nhw. Yn amlwg, er mwyn i bobl allu arfer eu hawl ddemocrataidd mewn ffordd wybodus "mae wleidyddiaeth angen cyfryngau annibynnol...Mae rhyddid gwybodaeth nid yn unig yn hawl i'r unigolyn. Mae hefyd yn cynnwys dimensiwn cymdeithasol."[19]

Felly, yng Nghymru Fydd bydd gan bawb hawl gyfartal i'r dulliau angenrheidiol i gymryd rhan ystyrlon mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Bydd pŵer gwleidyddol ac economaidd y wladwriaeth ganolog yn cael ei ddileu. Bydd pŵer yn cael ei ddatganoli i'r lefel isaf posibl. Bydd pobl yn ymwneud yn uniongyrchol â'r math hwn o hunan-lywodraeth.

Mae democratiaeth yn gyrru'r ddau werth normadol arall, sef tegwch a chymuned. Mae system lle mae gan bobl lais ystyrlon ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw yn un sy'n deg wrth reddf, ac mae grŵp o bobl sy'n cydweithredu i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar yr holl grŵp yn sail i gymuned. Fel nodwyd Abdullah Öcalan, "mae gwleidyddiaeth ddemocrataidd, trwy roi cyfle i garfannau a hunaniaethau wahanol o fewn cymdeithas fynegi eu hunain ac i ddod yn rymoedd gwleidyddol, yn diwygio'r gymdeithas wleidyddol ar yr un pryd. Mae gwleidyddiaeth yn dod yn rhan o fywyd cymdeithasol unwaith eto."[20] Trafodwn gymuned nesaf.

Cymuned

[19] Abdullah Öcalan, War and Peace in Kurdistan (t36)
[20] Abdullah Öcalan, Democratic Confederalism (t24)

Mae Cymru'n cynnwys llu o gymunedau a grwpiau affinedd, yn seiliedig ar iaith, daearyddiaeth a llu o ffactorau eraill. Mae'r cymunedau hyn wedi eu creu trwy hanesion a rennir, ac yn gael eu siapio gan brofiad byw a chyd-obeithion. Er yn aml gellir defnyddio gwahaniaethau i geisio ein gwahanu ac i greu gwrthdaro yn ein plith - er engrhaifft y gogledd yn erbyn y de, neu'r rhai a anwyd yng Nghymru yn erbyn y rhai a anwyd dramor - mae Cymru fel endid yn rhannu cryn dipyn o ddiwylliant sy'n gyffredin rhyngom, yn ogystal â chyd-orffennol a dyfodol a rennir. Fel y mae ein tîm pêl-droed yn dwud mor huawdl, "*together, stronger*".

Yn ystod cyfnodau arferol gall gwerth cymuned troi'n eithaf tenau, o ran dieithriaid mewn llefydd pell, a hefyd o ran pobl sy'n agosach at adref. Dyma effaith uniongyrchol o'r grymoedd o hunan-les economaidd a phrynwriaeth wedi'i breifateiddio. Cymhelliant cyfalafiaeth yw hunan-les economaidd, gan osod unigolion mewn cystadleuaeth ag unigolion eraill i gynhyrchu enillwyr a chollwyr - agwedd sydd wrth reswm yn erydu undod cymunedol. Mae cyfalafiaeth hefyd yn hyrwyddo diwylliant o brynwriaeth wedi'i phreifateiddio, lle mae boddhad bywyd nid yn unig yn dibynnu ar dreuliant personol sydd wastad yn cynyddu, ond lle mae cyd-dreuliant yn cael ei ystyried yn ostyngiad mewn treuliant personol.

Yn ystod cyfnodau anarferol, gall gwerth cymuned ddangos ei hochr dywyll, lle mae ffiniau anhyblyg yn cael eu diffinio rhwng y rahi sydd ar y tu mewn a'r rhai ar y tu allan, ac mae gwerthoedd y rhai ar y tu mewn yn cael eu dal mewn cyferbyniad â'r rhai ar y tu allan, ac er mwyn eu heithrio hwythau. Tra bod y tensiynau hyn yn amlwg yn hanes Cymru, er enghraifft y terfysgoedd hiliol yng Nghaerdydd ym 1919, yr

hyn sy'n amlwg hefyd yw croesawu ymfudwyr, ers y cyfnod rhoddwyd croeso i ymfudwyr o Loegr ac Iwerddon i faes glo de Cymru yn y 19eg ganrif, hyd heddiw gyda'r ffoaduriaid o Syria. Mae ein cryfder yn ein hamrywiaeth: gyda'n gilydd rydym yn gryfach.

Pam mae ymdeimlad cryf o gymuned yn bwysig? Disgrifiodd Murray Bookchin "y *banalization* a thlodi-profiad yn…gymdeithas mawr amhersonol."[21] Ond mae pwysigrwydd cymuned yn mynd yn ddyfnach na thlodi-profiad yn unig, er heb os, dyma un effaith bwysig. Mae cyfalafiaeth yn gosod enillwyr yn erbyn collwyr mewn amgylchedd o ofn ac ansicrwydd, sydd wedi arwain at hyrwyddo buddiannau'r unigolyn dros undod a chefnogaeth gymunedol. Yn ei dro, ac o gofio bod pobl yn greaduriaid cymdeithasol, mae hyn wedi arwain at argyfwng iechyd meddwl enfawr, fel y disgrifiwyd gan Oliver James yn *The Selfish Capitalist*, ac yn benodol at epidemig o unigrwydd. Mae cyfran sylweddol o Brydeinwyr ifanc yn teimlo'n unig yn aml neu'n aml iawn[22] tra bod bron i hanner o bobl dros 65 oed yn ystyried y teledu neu eu hanifeiliaid anwes fel eu cwmni agosaf[23]. Wrth ystyried bod dylanwad perthnasoedd cymdeithasol ar risg marwolaeth yn debyg i ffactorau risg fel ysmygu ac yfed, a'u bod yn fwy arwyddocaol na ffactorau fel anweithgarwch a gordewdra[24], mae hon yn sefyllfa ddifrifol a thrist. Mae'r gymuned yn bwysig.

---

[21] Murray Bookchin, Post-Scarcity Anarchism (t6)
[22] BBC Radio 4 a Wellcome, The Loneliness Experiment
[23] Age UK Loneliness Evidence Review, Gorffenaf 2015 (t2)
[24] Julianne Holt-Lunstad, Timothy B. Smith, J. Bradley Layton, Social Relationships and Mortality Risk, A Meta-analytic Review

Ac felly, yng Nghymru Fydd bydd pobl yn cydweithredu gyda'i gilydd oherwydd ymrwymiad gwirioneddol i les pobl eraill - cysyniad Bell Hook o ran cariad neu syniad Kropotkin o ran cyd-cymorth - a'r ymdeimlad mai dyna'r peth iawn i'w wneud. Bydd Cymru Fydd, yng ngeiriau Saunders Lewis, yn wir gymuned o gymunedau.

"Mae cymuned a chydraddoldeb yn atgyfnerthu ei gilydd, nid yn anghydnaws â'i gilydd."[25] Ond nid yn unig mae cymuned yn atgyfnerthu'r gwerth normadol o degwch, ond yn gyrru'n uniongyrchol y gwerth arall o democratiaeth:

> "Mae'n haws derbyn y dylai fod gan bawb o fewn rhyw ofod cymdeithasol yr un hawl i'r amodau angenrheidiol i fyw bywyd llewyrchus pan deimlir consérn a rhwymedigaeth foesol dros eu lles hefyd...Mae gwerth democratiaeth yw, yn fwy tebygol, o gael ei wireddu'n drylwyr o fewn unedau gwleidyddol lle mae ymdeimlad eithaf cryf o gymuned."- Erik Olin Wright[26]

[25] Robert Putnam, Bowling Along (t358)
[26] Erik Olin Wright, How to Be an Anticapitalist in the 21st Century (t19)

Trefn cymdeithasol-wleidyddol ac economaidd yng Nghymru Fydd

> “Gellir cynllunio sefydliadau cymdeithasol mewn ffyrdd sy’n dileu mathau o ormes sy’n rhwystro dyheadau dynol tuag at fyw bywydau boddhaus ac ystyrlon. Y dasg ganolog o gwleidyddiaeth rhyddfreiniol yw creu sefydliadau o'r fath.” - Erik Olin Wright[27]

Mae'r gwerthoedd normadol yn gosod sylfeini Cymru Fydd. Yn sail i'r sylfeini hyn mae ailfeddwl radical o'r model trefniadaeth gymdeithasol-wleidyddol ac economaidd. Fel y noda Calvin Jones, “mae strwythur economaidd De Cymru ôl-ddiwydiannol yn hollol wahanol i strwythur Gogledd Ddwyrain Cymru sy’n dal yn ddiwydiannol...Mae unrhyw un sy'n gweithio'n aml yng Ngogledd Orllewin Cymru yn gwybod ei bod yn wlad arall yn economaidd (ac i raddau yn gymdeithasol-ddiwylliannol). Powys yw… Powys.”[28] Sut felly gallwn ni drefnu - yn gymdeithasol, yn wleidyddol ac yn economaidd - yng Nghymru Fydd er mwyn sicrhau bod anghenion pob un o'r cymunedau gwahanol yn cael eu diwallu?

Yng nghymdeithas ddemocrataidd-egalitaraidd Cymru Fydd bydd dull *laissez faire market-knows-best* y Ceidwadwyr y DU yn diflannu, ynghyd â dull gwladoliaeth canolog Llafur y DU.

---

[27] Erik Olin Wright, Envisioning Real Utopias (t6)
[28] Calvin Jones, The Building of Successful Devolution, IWA

Yn eu lle bydd gwir ddemocratiaeth gyfranogol, o'r gwaelod i fyny, gyda phŵer cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd yn cael ei dynnu o'r canol a'i ddatganoli i'r lefel isaf posibl, "gan ddod â rheolaeth yn ôl i'r gymuned trwy ranberchnogaeth a democratiaeth leol"[29], oherwydd "mae'r rhai gorau i wneud penderfyniadau ydy'r rhai sydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y penderfyniadau hynny."[30]

Trefn cymdeithasol-wleidyddol

Beth yw ystyr "datganoli i'r lefel isaf posibl" mewn gwirionedd? Sut olwg fyddai ar gymdeithas o'r fath? Yn ganolog i weithrediad Cymru Fydd fydd strwythur cymdeithasol-wleidyddol sy'n tynnu'n helaeth ar fynegiant Abdullah Öcalan o gymdeithas ddemocrataidd-egalitaraidd: cydffederaliaeth ddemocrataidd. Mae cydffederaliaeth ddemocrataidd yn nodi "y bydd y bobl yn ymwneud yn uniongyrchol â sefydliadoli, llywodraethu a goruchwylio eu ffurfiannau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol eu hunain."[31] Felly bydd datblygu strwythurau democrataidd llawr gwlad, wedi'u seilio ar gymunedau a grwpiau affinedd, yn hollbwysig.

Yn ymarferol, bydd penderfyniadau lleol yn cael eu gwneud yn lleol, ar lefelau bro a chymuned. Bydd croeso i bob dinesydd gymryd rhan mewn cynghorau cymunedol, ac yn wir byddant yn cael eu hannog i gymryd rhan, ond ni fydd rhaid iddynt gymryd rhan. Bydd cynghorau cymunedol yn anfon cynrychiolwyr i gynghorau ffederal, pan fydd penderfyniadau yn gofyn am gydlynu rhwng cymunedau. Bydd cyngor cenedlaethol, neu gynulliad cyffredinol, yn cael ei neilltuo ar

[29] Leanne Wood, Y newid sydd ei angen (t12)
[30] Leanne Wood, Y newid sydd ei angen (t3)
[31] Abdullah Öcalan, War and Peace in Kurdistan (t34)

gyfer penderfyniadau y gellir eu gwneud ar lefel genedlaethol yn unig, sy'n ymwneud â materion fel amddiffyn neu faterion tramor.

Mae Abdullah Öcalan yn crynhoi'r dull gweithredu gorau yn ei bamffled, Cydffederaliaeth Ddemocrataidd: “[Mae] yn seiliedig ar gyfranogiad llawr gwlad. Mae ei phrosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn perthyn i’w chymunedau. Nid yw lefelau uwch ond yn bodoli i gydlynu a gweithredu ewyllys y cymunedau sy'n anfon eu cynrychiolwyr i'r cynulliad cyffredinol.”[32] Dim ond y math radical o drefn cymdeithasol-wleidyddol fel hwn all sicrhau y bydd Cymru Fydd yn gymuned o gymunedau sy’n wirioneddol yn gweithredu yn y fath fodd.

Trefn economaidd

“Mae sosialaeth yn trefn economaidd lle mae dyrannu a defnyddio adnoddau at wahanol ddibenion yn digwydd trwy arfer pŵer cymdeithasol...yn sylfaenol, mae hyn yn golygu bod sosialaeth yn gyfwerth â democratiaeth economaidd.”[33] Felly gallwn weld na ellir gwahanu trefn economaidd oddi wrth trefn gymdeithasol-wleidyddol. Felly, yng Nghymru Fydd, bydd llawer o adnoddau economaidd hefyd yn cael eu trefnu a'u rheoli ar y lefel isaf posibl. Yn ymarferol, mae hyn yn debygol o fod ar ffurf economi marchnadol-gydweithredol, gyda chymysgedd amrywiol o fentrau cydweithredol cymunedol, mentrau wladol lle mae monopolïau ledled y wlad yn bodoli, a chwmnïau cyfalafol democrataidd, yn ogystal â nifer ychwanegol o sefydliadau economaidd di-farchnad. Fel y dywed Erik Olin Wright yn glir, mae’n “bosibl i strwythur

[32] Abdullah Öcalan, Democratic Confederalism (t30)
[33] Erik Olin Wright, How to Be an Anticapitalist in the 21st Century (t69)

economaidd gynnwys unedau a nodweddir gan berchnogaeth gymdeithasol yn ogystal â pherchnogaeth breifat a pherchnogaeth gan y wladwriaeth."[34]

Cwmnïau cydweithredol a cyfundrenau gymunedol

Cwmnïau cydweithredol

Mae cwmnïau cydweithredol yn "gymdeithas ymreolaethol o bobl sydd wedi'u huno'n wirfoddol i ddiwallu eu hanghenion a'u dyheadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol trwy fenter dan cyd-berchnogaeth ac a reolir yn ddemocrataidd."[35] Gallant fodoli ar sawl ffurf gan gynnwys cwmnïau cydweithredol defnyddwyr, cynhyrchwyr neu dai, ymhlith eraill. Yn aml mae ganddyn nhw amcanion cymdeithasol yn ogystal ag economaidd ac, hyd yn oed heddiw, maen nhw'n chwarae rhan bwysig yn yr economi fyd-eang.

Un o'r cwmnïau cydweithredol mwyaf adnabyddus a mwyaf llwyddiannus yw Corfforaeth Mondragon, a leolir yng Ngwlad y Basg. Fe'i sefydlwyd yn wreiddiol ym 1956, ac mae gan y grŵp bellach dros 80,000 o berchnogion-gweithwyr mewn 264 o fusnesau a chwmnïau cydweithredol, sy'n ymwneud â sectorau cyllid, manwerthu, diwydiant a gwybodaeth, ac mae ganddo dderbyniadau blynyddol o dros €12bn. Nid yw Mondragon yn fodel iwtopaidd gan fod yn rhaid iddo weithredu o fewn y system gyfalafol, ond mae'n cyflogi mesurau fel rheoleiddio cyflogau, gan gyfyngu ar y swm a delir i brif reolwr mewn perthynas â gweithiwr-berchennog ar isafswm cyflog, er mwyn ffrwyno'r gormodedd sy'n nodweddiadol o fentrau cyfalafol traddodiadol. Y canlyniad yw bod cwmnïau cydweithredol Mondragon yn fwy proffidiol na chwmnïau eraill o Sbaen, a bod ganddynt y cynhyrchiant llafur

[34] Erik Olin Wright, Envisioning New Utopias (t116)
[35] International Cooperative Alliance

uchaf yn y wlad. “Y wers bwysicaf yn llwyddiant Mondragon ydy’r ffaith iddo gael ei sefydlu yn un o ranbarthau tlotaf a mwyaf dirwasgedig yn economaidd yn Sbaen ond mae wedi bod yn ffactor sylweddol i wneud y rhanbarth honno yn un o’r cyfoethocaf yn y wladwriaeth erbyn heddiw.”[36]

Sefydliadau cydfuddiannol
Mae cymdeithasau cydfuddiannol yn seiliedig ar egwyddor cydfuddiant, ond yn wahanol i fentrau cydweithredol nid yw aelodau fel arfer yn cyfrannu cyfalaf trwy fuddsoddiad uniongyrchol. Mae'n debyg mai'r enghreifftiau mwyaf eglur yw cymdeithasau adeiladu yn y DU ac Awstralia, a sefydlwyd i ddarparu morgeisi cartref i aelodau. Mae benthycwyr ac adneuwyr yn aelodau o'r gymdeithas, yn llunio polisi ac yn penodi cyfarwyddwyr ar sail un aelod, un bleidlais.

Cyfundrenau gymunedol
Yng Nghymru Fydd bydd cyfrifoldeb y wladwriaeth am ddarparu nwyddau a gwasanaethau penodol - y dulliau materol sy'n ofynnol i fyw bywyd llewyrchus, a drafodir yn adran nesaf y pamffled hwn - yn cynnwys cyfranogiad gweithredol o gymunedau a sefydliadau lleol mewn partneriaethau cymdeithasol-wladwriaethol. Bydd sefydliadau sy'n eiddo i'r gymuned ac sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned bron yn siwr o gynnwys darparu gwasanaethau gofal, gan gynnwys gofal iechyd, gofal plant a gofal yr henoed, addysg, ystod o wasanaethau cyhoeddus, ac amwynderau cyhoeddus ar gyfer digwyddiadau cymunedol.

Mae Cmwni Bro Ffestiniog yn un sefydliad o'r fath. Daeth 12 o fentrau cymdeithasol at ei gilydd, yn cyflogi tua 150 o bobl, dan faner Cwmni Bro Ffestiniog, sy’n gwmni cymunedol

[36] Leanne Wood, Y newid sydd ei angen (t16)

cyfyngedig, i hybu datblygiad amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal. Mae Cwmni Bro yn gwneud hyn trwy hybu cydweithrediad rhwng y mentrau cymdeithasol fel y maent, meithrin mentrau cymdeithasol newydd a hefyd drwy weithio gyda busnesau preifat bach sydd wedi'u hangori yn y gymuned. Am bob punt a dderbynnir fel grant neu fenthyciad, mae'n amcangyfrif bod 98 ceiniog yn cael eu gwario'n lleol, yn bennaf ar gyflogau, a bod 53% o'r cyflogau'n cael eu cadw'n lleol.

Mae cwmnïau cydweithredol a chymdeithasau gymunedol yn gwella democratiaeth economaidd am ddau brif reswm: maent yn cael eu llywodraethu gan egwyddorion democrataidd; ac, achos mae cwmnïau cydweithredol yn tueddu i fod â gwreiddiau daearyddol, mae'r cyfalaf sydd wedi eu buddsoddi yn llawer llai symudol nag mewn cwmnïau cyhoeddus neu breifat, ac felly'n llai tebygol o symud i rywle arall i osgoi rheoleiddio neu i ecsbloetio amodau llafur rhatach. Asgwrn cefn yr economi yng Nghymru Fydd fydd cwmnïau cydweithredol a chwmnïau sy'n eiddo i'r gymuned.

Mentrau gwladol

Mewn nifer o feysydd mae monopolïau naturiol yn bodoli lle mae'n gwneud synnwyr i weithgareddau economaidd gael eu cydgysylltu ar lefel genedlaethol, yn hytrach nag ar lefel fwy lleol. Rhai enghreifftiau yw rheilffyrdd[37] neu seilwaith band eang. Dim ond enghreifftiau arbennig o cymdeithasau cymunedol yw mentrau gwladol: maent yn dal i fod yn eiddo i'r gymuned ac yn cael eu rhedeg er budd y gymuned, ond o ystyried maint y gweithrediadau, y gymuned yn yr achos hwn

[37] Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn Tallinn, Estonia, yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio ac yn creu elw (Maeve Shearlaw, The Tallinn Experiment, The Guardian)

yw'r genedl. Felly dylid osgoi ailgreu modelau perchnogaeth gyhoeddus a nodweddir gan fiwrocratiaeth chwyddedig, ganolog heb fawr o atebolrwydd i'r cyhoedd.

Democrateiddio cwmnïau preifat

Os yw Gymru Fydd yn mynd i gymryd ei lle fel aelod llawn o'r gymuned ryngwladol, ni all (ac ni ddylai) gau ei hun yn economaidd allan o farchnadoedd rhyngwladol. Fodd bynnag, bydd rhaid i gwmnïau preifat sydd am wneud busnes yng Nghymru dderbyn rhywfaint o ddemocrateiddio. Mae cwmnïau eisoes yn derbyn rhywfaint o gyfyngiadau ar eu hawliau eiddo preifat, megis deddfau isafswm cyflog neu reoliadau iechyd a diogelwch - byddai'r rhain yn cael eu hymestyn a'u dyfnhau yng Nghymru Fydd er mwyn hyrwyddo gwerthoedd cydraddoldeb, democratiaeth a solidariaeth. Gall gofynion o'r fath gynnwys gwell perchnogaeth cyfranddaliadau gan y gweithwyr, er enghraifft, neu gael bwrdd cyfarwyddwyr dwyochrog, un wedi'i ethol gan gyfranddalwyr yn y modd confensiynol, a'r llall yn cael ei ethol gan y gweithwyr ar sail un-person-un-bleidlais.

Ni ddylai cwmnïau weld y gofynion hyn fel cyfyngiadau, ond yn hytrach fel cyfleoedd i wella eu busnesau. Yn wir “bu nifer o astudiaethau mawr sydd wedi’u rheoli’n dda...sy'n dangos buddion economaidd o’r cyfuniad o gyfranddaliadau a chyfranogiad gan y gweithwyr...dim ond pan fo perchnogaeth cyfrandaliadau gan y gweithwyr yn cyd-fynd â chynlluniau gwell-rheoli cyfranogol y daw buddion perfformiad sylweddol.” [38]

Sefydliadau economaidd di-farchnad

[38] Richard Wilkinson and Kate Pickett, The Spirit Level (t256)

Yn ychwanegol at y sefydliadau cymunedol a drafodwyd uchod, bydd mathau eraill o sefydliadau economaidd di-farchnad yn chwarae rhan bwysig yng Nghymru Fydd. “Mae llyfrgelloedd...yn fecanwaith dosbarthu sy'n ymgorffori'r ddelfryd egalitaraidd o roi hawl cyfartal i bawb i'r dulliau sydd eu hangen ar gyfer bywyd llewyrchus.”[39] Maent hefyd yn annog ymddygiadau buddiol eraill, megis dylunio cynhyrchion cynaliadwy sy'n para, a rhai y gellir eu trwsio yn lle eu disodli.

Mae Llyfrgell Pethau eisoes yn bodoli yng Nghaerdydd. Mae Benthyg, s’yn cael ei redeg gan Rumney Forum, yn sefydliad cymunedol dan arweiniad preswylwyr, a’i arwyddair yw “*borrow don’t buy*”. Mae ganddo eitemau ar gael i'w benthyg sy’n amrywio o arddio i *DIY*, ac o dechnoleg gwybodaeth i gynhyrchion sy'n gysylltiedig â mamolaeth. Yng Nghymru Fydd bydd rhaglen ehangu'r ffyrdd *llyfrgellaidd* di-farchnad hyn, a arweinir gan y gymuned, o roi hawl i bobl o lawer o adnoddau.

Caffaeliad lleol - y fodel Preston

Yng Nghymru Fydd “bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud gan y gymuned i fodloni ei gofynion yn lleol - i ddefnyddio adnoddau ynni, mwynau, pren, pridd, dŵr, anifeiliaid a phlanhigion y rhanbarth mor rhesymol a dyneiddiol â phosibl a heb fynd yn groes i egwyddorion ecolegol.”[40] Mae fersiwn gyfyngedig, lwyddiannus iawn, o'r uchelgais hon wedi bod yn gweithredu yn Preston, Lloegr, ers 2012. Mae caffael â ffocws lleol mewn sefydliadau angor, fel y cyngor, y brifysgol a’r colegau, wedi eu defnyddio i yrru'r galw am nwyddau a gwasanaethau o ffynonellau lleol, gan dyfu ac ehangu

[39] Erik Olin Wright, How to Be an Anticapitalist in the 21st Century (t87)

[40] Murray Bookchin, Post-Scarcity Anarchism (t68)

busnesau a chwmnïau cydweithredol lleol, a gwella iechyd a lles cymunedol.[41] Yng Nghymru Fydd bydd yr uchelgais hon yn mynd ymhellach a bydd yn cael ei hymgorffori ym mhob cymuned ar hyd a lled y wlad, wrth i benderfyniadau gael eu gwneud yn y gymuned a chan y gymuned, ac o reidrwydd yn cefnogi'r strwythurau economaidd sydd odanynt.

Trethiant

Trethu cyfoeth

Fel y nodwyd yn y rhagymadrodd i'r pamffled hwn mae Cymru yn wlad gyfoethog, ond y mae ei phobl yn byw mewn tlodi. Ond, er gwaethaf anghydraddoldeb incwm rhwng Cymru a'r DU yn ei chyfanrwydd, mae'r cyfoeth cyfartalog yng Nghymru tua'r un faint â'r cyfoeth cyfartalog yng ngweddill y DU.[42] Ond mae llawer o'r cyfoeth hwn yn anghynhyrchiol, ynghlwm wrth dir ac eiddo y gellid gwneud gwell defnudd ohonynt. Felly dylid gweithredu proses o ailwampio radical o'r system dreth, gan ganolbwyntio ar drethi ar gyfoeth sy'n symud y baich i'r cyfoethocaf mewn cymdeithas, yn hytrach na threthi incwm, neu drethi defnydd sy'n effeithio'n anghymesur ar y tlotaf. Fel y mae Thomas Piketty yn nodi yn ofalus yn ei lyfr *Capital*, mae'r cynnydd enfawr mewn anghydraddoldeb cyfoeth a welwyd ers yr ail ryfel byd yn ganlyniad i'r gyfradd twf cyfansawdd a gymhwysir i gyfoeth nas trethir neu sy'n cael ei drethu'n annigonol. Cyfoeth s'yn esgor ar gyfoeth. Trwy symud y baich i'r cyfoethocaf mewn cymdeithas, trwy drethu cyfoeth yn hytrach nag incwm, gallwn wyrdroi'r cynnydd hwn mewn anghydraddoldeb, a thrwy hynny gyfrannu at greu

[41] Centre for Local Economic Strategies, How we built community wealth in Preston

[42] The Resolution Foundation, The Generation of Wealth

cymdeithas decach, gyda'r holl allanolion cadarnhaol a ddaw yn sgil hyn.

Datganoli'r casglu
Er bod cydgysylltu a chysoni trethiant rhwng cymunedau, neu ardaloedd economaidd, yn bosibl a hyd yn oed yn debygol, dylid datganoli casglu a gweinyddu trethi i'r ardaloedd economaidd eu hunain. Mae system o'r fath yn digwydd yng Ngwlad y Basg heddiw, lle mae cynghorau taleithiol Bizkaia, Álava/Araba a Gipuzkoa - y tair tiriogaeth hanesyddol sy'n ffurfio Gwlad y Basg - yn casglu ac yn penderfynu ar y trethi a delir gan eu dinasyddion. Byddai cronfeydd wedyn yn cael eu cadw'n agosach at ble mae eu hangen ac maent i'w gwario, gan ganiatáu ar gyfer arloesiadau fel cyllidebu cyfranogol, gyda chyfran yn unig yn cael ei throsglwyddo i lefel ffederal neu genedlaethol.

Mesurau wahanol i gynnyrch mewnwladol crynswth
Fel y dadleuwyd trwy gydol y pamffled hwn, mae angen inni for yn chwyldroadol yn y ffordd yr ydym yn meddwl am Gymru, ac am yr hyn yr ydym am ei gael gan Gymru Fydd. Mae gan gyfalafiaeth yn gyffredinol, a neo-ryddfrydiaeth yn benodol, obsesiwn llwyr â thwf economaidd, fel y'i mesurir gan CMC. Ond at ba bwrpas rydym am gael economi sy'n ehangu ddibaid ac am byth? Er mwyn i pobl sy'n gynyddol o anhapus yn wrth iddynt weithio mwyfwy o oriau bob dydd a hynny mewn swyddi nad ydyn nhw'n eu hoffi, allu fforddio prynu pethau nad ydyn nhw eu hangen? Yn rhy aml mae polisïau wedi'u hanelu at dyfu CMC heb roi sylw digonol i ansawdd y twf a gyflawnir. Os ydym am i Gymru Fydd fod yn wlad deg, ddemocrataidd a chydweithredol, lle mae gan bawb y dulliau i fyw bywyd llewyrchus, byddai'n llawer mwy buddiol inni ganolbwyntio ein sylw ar fesurau sydd mewn gwirionedd

yn nodi a yw dinasyddion Cymru yn byw bywyd llewyrchus: uwchlaw lefelau isel iawn o CMC, nid yw cynnydd o ran CMC y pen yn arwain at gynnydd sylweddol mewn boddhad bywyd. Byddai'n llawer mwy buddiol inni ddileu CMC fel mesur o ba mor dda y mae'r wlad a'i dinasyddion yn gwneud, ac yn lle hynny canolbwyntio ar fesurau lles, fel y rhai a ddatblygwyd gan yr OECD ac a ddefnyddir gan Seland Newydd. Dim ond wedyn y gallwn fod yn sicr bod Cymru Fydd yn wlad sy'n werth byw ynddi.

Yr amgylchedd

> “Ni allwn ddatrys yr argyfwng heb ei drin fel argyfwng. Ac os yw’n amhosibl dod o hyd i atebion o fewn y system, yna efallai y dylem newid y system ei hun.” - Greta Thunberg

Yn syml, mae cyfalafiaeth yn lladd y blaned. Mae'r ffocws ar dwf economaidd uwchlaw popeth, a phreifateiddio elw wrth gymdeithasoli cholledion yr un pryd, yn yr achos hwn y niwed drwy lygredd amgylcheddol, wedi arwain at yr argyfwng hinsawdd. Ac er bod pobl ifanc y byd yn protestio ar y strydoedd, nid yw llywodraethau a chwmnïau’r byd yn gwneud digon i fynd i’r afael â’r argyfwng hwn. Mae’r consensws ar gynnydd ein bod yn cyrraedd pwynt di-droi’n ôl, lle bydd y difrod mor fawr fel na fydd yn bosibl rhoi stop arno, ond mae'r rhai sydd mewn grym yn oedi.

Nid yw newid hinsawdd yn fater y gall unigolion ei ddatrys, ac ni ellir ei ddatrys ar lefel leol na chenedlaethol: mae angen cydweithredu traws-genedlaethol ac ymdrech gydlynol. Ond yn yr un modd ag y dylai unigolion barhau i wneud dewisiadau sy'n ystyried yr effaith amgylcheddol yn eu bywydau bob dydd, hyd yn oed os na fydd yr ymddygiadau hyn yn osgoi'r argyfwng ar eu pennau eu hunain, dylai cenhedloedd hefyd wneud popeth o fewn eu gallu i fynd i'r afael â newid hinsawdd mewn modd unochrog, i wyrdroi colled cynefinoedd ac i amddiffyn bioamrywiaeth.

Bydd Cymru Fydd, un sydd wedi'i chreu ar y tri gwerth normadol uchod, o reidrwydd yn cael effaith lai ar yr amgylchedd trwy fod yn gymdeithas fwy cyfartal: mae gan wledydd mwy anghyfartal olion traed ecolegol uwch, maent yn

cynhyrchu mwy o wastraff ac yn defnyddio mwy o ddŵr na'r rhai sydd yn mwy cyfartal. At hynny, bydd Cymru Fydd yn llawer mwy tebygol o ddeddfu polisïau sy'n achosi'r effaith leiaf bosib ar yr amgylchedd na Chymru sydd wedi'i chlymu i DU neo-ryddfrydol. Byddai Cymru Fydd yn canolbwyntio ar faterion sy'n bwysicach na thwf economaidd parhaus, byddai'n sicrhau bod ei chyflenwad trydan yn gwbl adnewyddadwy, a bod ei system fwyd yn lleol ac yn gynaliadwy.

Mewn gwirionedd, trwy ddiffiniad, byddai'n rhaid i Gymru Fydd fod yn gynaliadwy amgylcheddol gan mai un o werthoedd normadol Cymru Fydd yw y bydd gan genedlaethau'r dyfodol o leiaf yr un hawl i'r dulliau i fyw bywyd llewyrchus â'r genhedlaeth bresennol.

Blociau adeiladu Cymru Fydd

"*Liberté, égalité, fraternité*." - Maximilien Robespierre

Sylfeini Cymru Fydd yw'r tri gwerth normadol, sef tegwch, democratiaeth a chymuned. Ond beth am y dewisiadau polisi a'r penderfyniadau y gellir eu hadeiladu ar y sylfeini hyn er mwyn creu cymdeithas well a thecach? Trown yn awr at drafodaeth eang ynghylch rhai o flociau adeiladu'r gymdeithas newydd.

Dulliau materol

Yng Nghymru Fydd bydd gan bawb hawl gyfartal i'r dulliau materol sy'n angenrheidiol i fyw bywyd llewyrchus. Gall yr hyn sy'n ffurfio'r dulliau materol newid dros amser a lle, a gall hefyd amrywio o berson i berson, ond yn fras mae'n cynnwys ystod o gynhyrchion a gwasanaethau sylfaenol sy'n golygu bod pobl yn cael eu cadw'n gynnes, eu llochesu, eu bwydo, eu haddysgu'n dda a'u cadw mewn iechyd da. Mewn economi farchnad neu gymysg mae'n awgrymu bod gan bobl incwm digonol i brynu rhai neu lawer o'r pethau hyn.

Incwm sylfaenol di-amod (ISD)

Gydag ISD, byddai incwm sy'n ddigonol i fyw uwchlaw'r llinell dlodi yn cael ei dalu i bob dinesydd yng Nghymru, o bob oed, heb unrhyw amodau. Byddai mathau eraill o gymorth incwm yn cael eu dileu, heblaw am y rhai sy'n gysylltiedig ag anghenion arbennig, a fyddai'n lleihau'r baich gweinyddol o reoli system gymhleth o nawdd cymdeithasol sy'n gofyn am asesiad anghenion. Gan y byddai'n daliad di-amod a wneir i bob dinesydd, byddai hefyd yn dileu unrhyw stigma cymdeithasol sy'n gysylltiedig â "hawlio budd-daliadau". Byddai incwm sylfaenol diamod a bennir fel hyn yn arwain yn

rhesymegol at ddileu tlodi, a byddai hefyd yn lleihau anghydraddoldeb economaidd a chymdeithasol.

Yn y bôn, byddai ISD yn chwalu'r cysylltiad rhwng diwallu anghenion sylfaenol unigolyn a'r cyflog y mae'r person hwnnw'n ei ennill. Trwy ddarparu rhwyd ddiogelwch gref, byddai ISD yn cysgodi dinasyddion rhag yr effeithiau dinistriol tebygol a achosir gan awtomeiddio, yn dileu'r risg sy'n gysylltiedig â mentrau newydd, ac yr un modd gallai helpu i gefnogi economi marchnadol-gydweithredol. Byddai'n gadael i bobl gymryd rhan mewn mentrau y tu allan i economi gyfredol y farchnad, er enghraifft y gweithgareddau hynny megis rhoi gofal nad yw cymdeithas yn eu gwerthfawrogi mewn modd economaidd, a byddai'n gadael i bobl ddilyn eu diddordebau creadigol y tu allan i'r gweithle traddodiadol, gan gyfrannu at bywyd llewyrchus a chymdeithas fywiog.

Bwyd

Ar hyn o bryd mae Cymru yn allforio'r rhan fwyaf o'r bwyd y mae'n ei gynhyrchu, ac yn ail-fewnforio popeth sydd ei angen arno, ar gost fawr i'r amgylchedd. Yn wir, mae bwyd a gweithgareddau cysylltiedig â bwyd fel ffermio ffatri, storio a chludiant i gyd yn cael effaith ecolegol fawr, a hynny heb sôn am y pryderon moesegol. Mae gan Maniffesto Bwyd Cymru weledigaeth wahanol o'r system fwyd yng Nghymru, "Cymru lle gall pawb fwynhau bwyd sy'n flasus ac yn faethlon, wedi'i gynhyrchu mewn ffordd sydd mewn cytgord â'r byd naturiol, fel gall cenedlaethau'r dyfodol hefyd fwyta'n dda...system fwyd sy'n darparu cyflogaeth ystyrlon, cynhyrchu bwyd iach, cydnabod traddodiadau diwylliannol ac yn masnachu yn deg â gweddill y byd"[43].

[43] Maniffesto Bwyd Cymru

Mae'r weledigaeth hon yn disgrifio system fwyd i Gymru wedi'i gwreiddio yng Nghymru, ac wedi'i gwreiddio yn y gymuned, ac yn bennaf (er nad yn gyfan gwbl) yn cynhyrchu i ddiwallu anghenion y gymuned honno. Byddai gan system o'r fath nifer o fuddion, o leihau gwastraff i hyrwyddo ffermydd cydweithredol a chymunedol, ac o sicrhau lles anifeiliaid i addysgu ein plant am rôl bwyd maethlon wrth fyw bywyd llewyrchus. Ond budd mwyaf system fwyd o'r fath yw y byddai'n gallu ymateb i'r galw lleol i sicrhau na fyddai unrhyw ddinasyddion Cymru Fydd yn llwglyd.

Lloches

Mae bodolaeth digartrefedd helaeth mewn rhan gyfansoddol o'r economi bumed gyfoethocaf yn y byd yn gywilyddus a dylai fod yn embaras cenedlaethol. Bydd yr hawl i dai a lloches digonol yn cael ei chydnabod fel hawl annileadwy i bob dinesydd yng Nghymru Fydd.

Addysg

Mae adeiladu Cymru Fydd yn cychwyn yn ein hysgolion: "awdurdodi trwy addysg."[44] Nid "cymdeithasoli pobl ifanc er mwyn dilyn yn llwyddiannus rôl waith a ddiffiniwyd ymlaen llaw"[45] fydd prif bwrpas addysg, ond bydd yn ehangach na hyn er mwyn helpu i'w datblygu i fod yn ddinasyddion crwn, hapus, sy'n cymryd rhan yn llawn. Bydd plant ac oedolion ifanc yn cael eu dysgu am sut mae democratiaeth yn gweithredu, gan fod dealltwriaeth o ddemocratiaeth yn hanfodol er mwyn gallu cymryd rhan ynddo. Yn ogystal â'r celfyddydau a'r gwyddorau, dysgir iddynt wleidyddiaeth a dinasyddiaeth, am gydraddoldeb a thegwch, meithrin perthnasoedd a pharch. A dysgir iddynt am hyn i gyd trwy

[44] Leanne Wood, Y newid sydd ei angen (t28)
[45] David Frayne, The Refusal of Work (t15)

gyfrwng y Gymraeg, gan y bydd pob ysgol yng Nghymru Fydd yn ysgol cyfrwng Cymraeg a fydd yn rhad ac am ddim: mewn gwirionedd dyma'r unig math o ysgolion sy'n datblygu dwyieithrwydd.

Mae addysg yn mynd ymhellach na'r hyn a ddarperir yn yr ysgol a'r brifysgol. Dylai dysgu gydol oes fod ar gael i bawb sydd am ei gael, gan fynd llawer ymhellach na dim ond ailhyfforddi ac uwchsgilio gweithwyr er mwyn iddynt ymateb i farchnad swyddi sy'n newid. Yng Nghymru Fydd bydd dysgu gydol oes yn cynnwys sgiliau caled, wrth gwrs, ond bydd yn mynd ymhellach i alluogi pobl o bob oedran i ddatblygu eu diddordebau a'u galluoedd yn y celfyddydau, crefftau, gwleidyddiaeth, dinasyddiaeth a mwy.

Gofal iechyd a gofal cymdeithasol

“Mewn gwledydd cyfoethog, nid oes perthynas rhwng disgwyliad einioes a maint gwariant y pen ar iechyd. Ond mae yna ddigonedd o dystiolaeth sy’n dangos bod cymdeithasau mwy egalitaraidd yn tueddu i fod yn iachach.”[46] Yn ôl union natur y gymdeithas yng Nghymru Fydd - un sy’n deg ac yn rhydd, lle nad yw dinasyddion yn cystadlu'n gyson ag eraill - dylai lefelau iechyd a lles, yn enwedig lles meddyliol, wella. Bydd darparu system o ofal iechyd a gofal cymdeithasol cydgysylltiedig, yn rhad ac am ddim wrth ei ddefnyddio, yn hawl i bob dinesydd, a bydd yn mynd yn llawer ymhellach na'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol cyfredol. Bydd yn canolbwyntio ar fesurau ataliol, ar leihau achosion salwch, trwy hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn gorfforol ac yn feddyliol. Bydd hefyd yn cwmpasu gwasanaeth gofal cymdeithasol cynhwysfawr yn y gymuned, gan ddiwallu anghenion yr henoed, y rheini ag anableddau meddyliol neu gorfforol, a'r rheini â phroblemau

[46] Richard Wilkinson and Kate Pickett, The Spirit Level (t81)

camddefnyddio cyffuriau, ymhlith â gwasanaethau eraill i gefnogi plant ac oedolion. Bydd yn defnyddio llawer o feysydd polisi eraill, megis addysg, y system fwyd a darparu hamdden, i sicrhau dull cydgysylltiedig o les trwy gydol oes rhywun ac hyd at henoed.

Hamdden/ adloniant

Un o anghyfiawnderau mawr o ganlyniad i ddegawd neu fwy o lymder yw'r gostyngiad mewn cyfleusterau hamdden ac adloniant i'w defnyddio am ddim. Mae clybiau ieuenctid wedi cau, llyfrgelloedd wedi cau, cyfleusterau'r cyngor wedi'u cwtogi a mannau cyhoeddus wedi'u gwerthu i gwmnïau preifat. Mae cyllid ar gyfer y celfyddydau wedi cael ei dorri ac mae sawl cynllun wedi cael eu hystyried, gan gynghorau sy'n ysu am arian, o ran codi tâl ar bobl i gael mynediad i barciau cyhoeddus. O ystyried yr allanolion cadarnhaol y mae'r enghreifftiau hyn yn eu cynhyrchu - buddion i'r gymuned ehangach s'yn ychwanegol at y buddion i'r unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau ei hun - mae'r polisïau cibddall hyn wedi bod yn drychinebus. Maent wedi cyfrannu at y dirywiad yn lefelau iechyd corfforol a meddyliol unigolion, a'r lefel ostyngol o ysbryd cymunedol a welwyd ers yr argyfwng ariannol.

Byddai Cymru Fydd yn gwrthdroi'r preifateiddio mannau cyhoeddus ac yn ehangu cyfleusterau hamdden sy'n eiddo i'r gymuned ac yn cael eu rhedeg ganddi. Bydd cymunedau'n cael eu hannog a'u grymuso i ddarparu'r gwasanaethau hynny sy'n diwallu yn y modd gorau anghenion a gofynion y cymunedau eu hunain, gan sicrhau hawl pob dinesydd i weithgareddau hamdden, adloniant a diwylliannol.

Ynni

Eisoes mae hanner o gynhyrchiant ynni Cymru yn cael ei gyflenwi gan ffynonellau adnewyddadwy. Ond, fel y dadleuodd yr Athro Emeritws Keith Barnham yn ei lyfr *The Burning Answer*, gallai cyfuniad o ffynonellau adnewyddadwy gyflenwi holl ofynion ynni presennol Cymru, megis cymysgedd o wynt alltraeth, solar ar ben to, a trydan-bio drwy ddefnyddio'r gwastraff o'n system fwyd. Nid oes angen cynhyrchu niwclear. Gallai'r mathau hyn o gynhyrchiant ynni fod ar raddfa fach, datganoledig, dan arweiniad cymunedol ac yn eiddo democrataidd.

Ar hyn o bryd Cymru yw'r allforiwr ynni pumed mwyaf yn y byd, ar ôl Canada, yr Almaen, Paraguay a Ffrainc, ond nid yw dinasyddion Cymru yn gweld dim o'r budd, gan mai cwmnïau preifat sydd piau'r cynhyrchiant. Yng Nghymru Fydd gallem ehangu ein gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy trwy, er enghraifft, fanteisio ar ein potensial mawr o ran ynni llif llanw, i barhau i allforio ynni i'n cymdogion. Fodd bynnag, gan y byddai'r cynlluniau hyn i gyd yn perthyn i'r gymuned ac yn cael eu rhedeg ganddo, byddai'r buddion yn mynd yn eiddo i gymunedau Cymru.

Cyfathrebu

O ystyried hanes Cymru o ran ei heconomi a seilwyd ar gloddio defnyddiau o'r tir, a'r ffaith bod Cymru ar gyrion economi gyfoes y DU sy'n canolbwyntio ar Lundain, mae rhwydwaith cyfathrebu yng Nghymru yn waeth o lawer na'r hyn sydd ei angen mewn cenedl fodern, a chyda thanfuddsoddi parhaus. Y brif ffordd sy'n cysylltu gogledd y wlad a'r de yw ffordd un lôn am lawer o'i hyd, ac er mwyn mynd o dde'r wlad i'r gogledd ar reilffordd mae angen teithio trwy Loegr.

Cludiant yw un o'r cyfranwyr mwyaf tuag at allyriadau nwyon tŷ gwydr. Trwy ailfeddwl mewn ffordd radical y ffordd y mae dinasyddion a nwyddau yn cael eu cludo o amgylch y wlad, gallwn greu system decach lle mae gan bawb allu cyfartal i deithio yn ôl eu hanghenion a'u dymuniadau, ond hefyd gallem leihau'r effaith y mae symudiadau o'r fath yn ei chael ar yr armgylchedd mewn ffordd ddramatig. Gallai gwasanaethau bysiau trydan, a ariennir yn ganolog gan y gymuned, gysylltu â rhwydwaith cludiant ehangach sy'n wyrdd ac integredig. Gallai hyn gynnwys opsiynau teithio ar reilffyrdd a theithio llesol fel beicio, gan ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bawb ledled y wlad, fel yr ydym eisoes yn dechrau ei weld mewn gwledydd fel Estonia. Byddai hyn galluogi ddinasyddion i roi'r gorau i'w ceir, adennill y trefi a'r dinasoedd, a helpu i wyrddio llwydnu ein ffyrdd a'n meysydd parcio.

Mae cyfathrebiadau fodern yn mynd y tu hwnt i gludiant. Mae hawl i fand eang cyflym a dibynadwy yn hanfodol, gan roi hawl i unigolion gael gwybodaeth o bedwar ban y byd, ymestyn hawliau gwleidyddol trwy alluogi bobl i ddwyn awdurdodau i gyfrif yn haws, hwyluso gweithio hyblyg, a gwella gallu busnesau i ymgysylltu a'u cyflenwyr a'u cwsmeriaid. Yng Nghymru Fydd bydd seilwaith digidol yn gael eu ehangu ledled y wlad, a gellid blaenoriaethu'r cyrchiad i fand eang i bawb am ddim, er enghraifft trwy WiFi cyhoeddus, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol, i helpu i gysylltu ein cymunedau â'i gilydd, a chyda'r byd ehangach, i rannu syniadau, ein hiaith a'n diwylliant.

Mae gwybodaeth gywir a diduedd am ddim, a ddarperir gan gyfryngau annibynnol, yn rhagofyniad ar gyfer democratiaeth weithredol. Mae'n bosibl llacio gafael bresennol y cyfryngau adain dde, sy'n canolbwyntio ar Lundain, trwy adeiladu ar

rwydwaith y Papurau Bro a chyfryngau newydd fel Nation.Cymru a Senedd Home, a thrwy cymryd ysbrydoliaeth o bapurau newydd fel *The National* yn yr Alban, i ddarparu gwasanaethau newyddion perthnasol a diduedd i ddinasyddion Cymru Fydd, fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y materion sy'n effeithio arnynt.

Dulliau cymdeithasol

Yng Nghymru Fydd bydd gan bawb hawl cyfartal i'r dulliau cymdeithasol sy'n angenrheidiol i fyw bywyd llewyrchus. Bydd y dulliau cymdeithasol yn newid o berson i berson, yn siwr, ond maent yn cwmpasu'r gweithgareddau ystyrlon y mae rhywyn yn eu perfformio, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i waith, y cysylltiadau cymdeithasol sydd gan y person, yn ogystal â'r gydnabyddiaeth y mae'n ei derbyn.

Gweithgareddau ystyrlon, boddhaus

Mae gwaith y telir amdano yn ganolog nid yn unig i weithrediad cymdeithasau cyfalafol, ond hefyd i'w diwylliant: mae ein barn a'n rhagdybiaethau ynghylch person a'i statws i raddau mawr wedi'u llunio yn ôl ei waith; mae'r gweithle yn creu llawer o'r cysylltiadau cymdeithasol sydd gan bobl; ac mae gwaith yn cael ei ystyried fel ffordd i berson dyfu ac i gael boddhad. Mae gwaith y telir amdano hefyd yn ganolog i wleidyddiaeth cymdeithasau cyfalafol: er mai twf CMC allai fod y nod, creu swyddi yw'r modd (gan anwybyddu ansawdd y swyddau). Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn fwy euog na llawer ar hyn o beth.

Mae'r ffin rhwng bywyd gwaith a bywyd cartref yn dod yn fwyfwy aneglur. Yn fwyfwy aml gofynnir i weithwyr fod yn hyblyg, "agile" ac ymreolaethol (o fewn terfynau wedi'u diffinio ymlaen llaw, wrth gwrs), ac felly mae disgwyl iddynt fod ar

gael ac yn barod i ateb i e-byst bob awr o'r dydd, gyda'r cyfan oll yn cael ei ddynodi fel "gweithio'n hyblyg" a'i werthu i weithwyr fel buddion. Ond o ystyried natur ansicr bywyd o dan gyfalafiaeth, mae gweithwyr yn derbyn y termau hyn, gan fod gwaith yn ganolog i ddosbarthiad incwm: dyma'r brif ffordd rydym yn cael hawl i'r dulliau i fyw bywyd llewyrchus, hyd yn oed os ydym yn rhy flinedig ac o dan ormod o straen - wrth inni wella o'r gwaith - i fyw bywyd o'r fath.

Mae hyn yn arwain at set eang o gwestiynau, a fynegwyd gan David Frayne yn ei lyfr *The Refusal of Work*: "Beth sydd mor wych o ran gwaith sy'n gweld cymdeithas yn ceisio yn gyson i greu mwy ohono? Pam, ar binacl datblygiad cynhyrchiol cymdeithas, mae phobl yn credu o hyd bod angen i bawb weithio am y rhan fwyaf o'r amser? Beth yw diben gwaith, a beth arall y gallem fod yn wneud yn y dyfodol, pe na baem bellach wedi ein cornelu i dreulio'r rhan fwyaf o'n hamser yn gweithio?"[47] Mae'r cwestiynau'n arbennig o berthnasol mewn cymdeithas ôl-brinder fel Cymru[48].

Rydym eisoes wedi trafod sut y bydd ISD Cymru Fydd yn torri'r cysylltiad rhwng gwaith ac incwm (sylfaenol). Bydd gwaith yn dal i fod ar gael, a bydd angen gweithwyr o hyd, ond bydd y ddeinameg bŵer rhwng cyfalaf a llafur yn cael ei

---

[47] David Frayne, The Refusal of Work (t13)

[48] Defnyddir y term "ôl-brinder" i ddynodi'r sefyllfa economaidd ddamcaniaethol lle gellir cynhyrchu'r rhan fwyaf o nwyddau yn helaeth, fel eu bod ar gael i bawb yn rhad iawn neu am ddim hyd yn oed. Nid yw ôl-brinder yn golygu bod prinder wedi cael ei ddileu ar gyfer yr holl nwyddau a gwasanaethau, ond yn ddamcaniaethol y gallai pawb diwallu'n hawdd eu hanghenion goroesi sylfaenol. Yn ymarferol, nid yw hyn yn digwydd oherwydd, ymhlith rhesymau eraill, cam-ddyrannu cyfalaf ac adnoddau, yn ogystal ag ymddygiad ceisio-rhent

thorri: bydd trymwaith wedi cael ei ddiddymu. Bydd pobl felly yn rhydd i berfformio gweithgareddau ystyrlon a boddhaus, gan gynnwys gwaith, fel y dymunant.

Agosatrwydd/ cysylltiad cymdeithasol

Mae bodau dynol yn greaduriaid cymdeithasol, ond is-gynnyrch cymdeithas gyfalafol, ac un sy'n canolbwyntio ar waith, yw diffyg cynyddol o gysylltiad cymdeithasol, a rhagor o unigrwydd a dieithrio. Yng Nghymru Fydd bydd agosatrwydd a chysylltiad cymdeithasol yn cael eu hyrwyddo mewn dwy ffordd arwyddocaol: yn gyntaf trwy dorri'r cysylltiad rhwng gwaith a chyflog, a thrwy hynny ganiatáu amser ac egni i bobl adeiladu a chynnal perthnasoedd ystyrlon; ac yn ail, oherwydd trefniadaeth gymdeithasol democratiaeth gyfranogol, wedi'i gwreiddio mewn cymunedau a grwpiau affinedd (a drafodir yn ddiweddarach).

Cydnabyddiaeth gymdeithasol

Mae cydnabyddiaeth, sef “yr arferion cymdeithasol a ddefnyddir gan bobl i gyfleu parch at ei gilydd ac i ddilysu eu statws fel pobl foesol gyfartal o fewn cymdeithas”[49], nid yn unig yn bwysig i ymdeimlad o les unigolyn, ond gall fod yn hanfodol er mwyn i bobl ffynnu. Y rheswm am hyn yw bod camwybodaeth, a stigma cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag unrhyw briodoledd amlwg person, er enghraifft dosbarth, iaith neu rywioldeb, “yn rhwystro llewyrch pobl hyd yn oed ar wahân i'r ffordd y gall y rheini hefyd rwystro'r hawl i'r dulliau materol i lewyrchu.”[50]

Yng Nghymru Fydd ni fydd dinasyddion yn cael eu barnu yn bennaf yn ôl eu gallu i gynhyrchu gwerth economaidd, ond

[49] Erik Olin Wright, Envisioning Real Utopias (y16)
[50] Erik Olin Wright, How to Be an Anticapitalist in the 21st Century (t13)

mewn modd ehangach yn ôl y cyfraniadau amrywiol a wneir i'w grwpiau affinedd, eu cymunedau ac i'r gymdeithas. Bydd dinasyddion yn cydnabod bod pob dinesydd yn aelod gwerthfawr yng Nghymru Fydd, a phob un â'i gyfraniad i'w wneud.

Dulliau diwylliannol

Yng Nghymru Fydd bydd gan bawb hawl cyfartal i'r dulliau diwylliannol sy'n angenrheidiol i fyw bywyd llewyrchus. Mae'r dulliau diwylliannol yn cwmpasu sawl peth, sef dealltwriaeth o Gymru a'i hanes a'i hiaith, empathi tuag at yr amrediad o ddiwylliannau amrywiol sy'n bresennol yn y wlad, a dealltwriaeth o sut mae'r cydblethu rhwng y ddau yn sail i genedl fodern, fywiog. Rhaid inni hefyd osod ein diwylliant yng nghyd-destunau ehangach Prydain, Ewrop a'r byd-eang.

Dwyieithrwydd

Fel y dywedodd cyn-bêl-droediwr a rheolwr pêl-droed Cymru, Chris Coleman, "[mae] y Gymraeg yn rhan o bwy ydyn ni...dyma yw ein hiaith genedlaethol ni…dyw pawb ddim yn gallu ei siarad, ond mae'n rhan o'n diwylliant."[51] Bydd Cymru Fydd yn genedl wirioneddol ddwyieithog. Bydd dinasyddion yn gallu byw pob agwedd o'u bywydau cyfan trwy'r Gymraeg neu'r Saesneg. Addysg gyfrwng Cymraeg yw'r unig ffordd i ddatblygu dinasyddion cwbl ddwyieithog, rhai sydd yr un mor alluog a chyffyrddus yn y ddwy iaith, ac felly fel y trafodwyd uchod bydd pob ysgol yn ysgol gyfrwng Gymraeg a fydd yn rhad ac am ddim.

Hanes

[51] Golwg360, "Y Gymraeg yn rhan o bwy ydyn ni" meddai Chris Coleman

Dywedodd Malcolm X mai “dim ond ffŵl fyddai’n gadael i’w elyn ddysgu ei blant.” Fe wnaeth Mary Angelou ei eirio mewn termau llai pigog, ond wedi adleisiodd yr un teimlad, pan ddywedodd “os nad ydych chi'n gwybod o ble rydych chi wedi dod, nid ydych chi'n gwybod i ble rydych chi'n mynd." Fel dinasyddion dwyieithog Cymru Fydd byddwn yn cael ein dysgu am ein hanes, o'r cyfnod roedd dynion a menywod cynhanesyddol yn cloddio am gopr ar y Gogarth hyd at dywysogion Cymru a'r goresgyniad Sacsonaidd, o’r amser pan oedd Cymru yn gyrru'r chwyldro diwydiannol ymlaen hyd at y cyfnod pan gymerodd ran gweithredol mewn ymestyn yr Ymerodraeth a terfysgoedd hiliol 1919, ac o sefydlu'r GIG a radicaliaeth y 1960au hyd at ddatganoli. Byddwn yn gwybod ein hanes nid fel y gallwn ymffrostio neu frolio am ein rhagoriaeth, ond fel y gallwn fwrw i’r neilltu ein hisraddoldeb canfyddedig. Bydd dealltwriaeth o'n hanes a rennir yn rhoi dealltwriaeth gwell inni o bwy ydym, yn cadarnhau teimladau o gymuned a chenedligrwydd, ac yn ein galluogi i edrych ymlaen yn hyderus wrth adeiladu ac adnewyddu'r Gymru Fydd mewn modd parhaus.

Amrywiaeth ddiwylliannol

Fel dinasyddion Cymreig hyderus a modern byddwn yn deall sut mae tonnau o fewnfudwyr dros y ganrifoedd diwethaf wedi siapio Cymru a'i chymunedau er gwell. Byddwn yn parhau i groesawu a chofleidio newydd-ddyfodiaid gyda ddiwylliannau a hanesion gwahanol sy'n ceisio gwneud Cymru yn gartref iddynt, fel bod yr ymadrodd “mae croeso i bawb yng Nghymru Fydd” yn wirioneddol gywir, ac nid dim ond geiriau gwag.

Heddychaeth

Bydd Cymru Fydd yn gwrthwynebu rhyfel, militariaeth a thrais o bob math. Ni fydd yn gwario swm anghymesur o'i gyfoeth ar y lluoedd arfog. Ni fydd yn cychwyn ar ryfeloedd

trefedigaethol mewn gwledydd pell, gan draddodi miliynau o ddynion, menywod a phlant i dlodi, anobaith neu sefyllfa waeth byth. Ni fydd yn ildio darnau enfawr o'i thir, llawer ohono wedi'i gipio drwy rym oddi wrth ei warcheidwaid hanesyddol, i hyfforddi dynion, menywod a phlant yn y ffyrdd o ryfela mecanyddol. Ni fydd yn cyfaddawdu ar ei hetheg a'i moeseg trwy hyfforddi milwriaethwyr tramor i fomio eu dinasyddion eu hunain. Ni fydd ganddo ataliad niwclear annibynnol.

Bydd gan Gymru Fydd lu hunan-amddiffyn o faint priodol a fydd, o dan amodau arferol, heddychlon, yn cael y dasg o gadw heddwch rhyngwladol, ymateb i argyfyngau ac ymdrechion dyngarol. Bydd y llu hunan-amddiffyn hefyd yn bartner pwysig mewn ymateb i argyfyngau domestig, er enghraifft ymateb i lifogydd a achosir gan newid hinsawdd, yn ogystal ag arwain ar ymdrechion i wella'r amgylchedd naturiol, er enghraifft ailgoedwigo a phlannu coetir cynhenid.

Terfyn

> “Os na fydd y chwyldro yn cychwyn o’r gwaelod, os na fydd yn ehangu ‘sylfaen’ y gymdeithas nes iddi ddod yn gymdeithas ei hun, yna dim ond *coup d’état* ydyw. Os nad yw'n creu cymdeithas lle mae pob unigolyn yn rheoli ei fywyd dyddiol, yn lle bod bywyd dyddiol yn rheoli pob unigolyn, yna mae'n wrth-chwyldro. Gall rhyddhad cymdeithasol dim ond digwydd os yw’n hunan-ryddhad ar yr un pryd - os yw’r mudiad ‘torfol’ yn hunan-weithgaredd sy’n cynnwys y radd uchaf o hunan-newid a hunan-ddeffroad.” - Murray Bookchin[52]

At ba ddiben yr wyf yn cynnig chwyldro? Os er mwyn ail-greu anghydraddoldebau ac anwireddau'r wladwriaeth Brydeinig ar raddfa Gymreig, yna nid yw'n werth ei wneud. Sail y chwyldro yw cael gwared o hierarchaeth, rheol gan un dosbarth a gorfodaeth; er mwyn adeiladu Cymru fel gwir ddemocratiaeth gyfranogol, wedi'i hadeiladu ar sail ymdeimlad o degwch a chymuned, lle gall dinasyddion fyw bywydau hapus a boddhaus.

Mae'r chwyldro yr wyf yn ei gynnig yn gylch rhinweddol hunangyflawnol a fydd yn atgyfnerthu ei hun yn gyson. Bydd y ffocws ar degwch, a rhoi hawl cyfartal i bob dinesydd i'r dulliau sy'n ofynnol i fyw bywyd llewyrchus, yn arwain at gymdeithas fwy cyfartal trwy diffiniad. Ac mae Cymru yn wlad ddigon cyfoethog fel y bydd cymdeithas fwy cyfartal yn arwain nid yn unig at ymdeimlad ehangach o gymuned, ac yn ei sgil gwell agosatrwydd a chysylltiad cymdeithasol, ond hefyd at

[52] Murray Bookchin, Post-Scarcity Anarchism (t173)

ganlyniadau gwell o ran iechyd a salwch meddwl, perfformiad addysgol, symudedd cymdeithasol ac yn y blaen - y dulliau materol, cymdeithasol a diwylliannol i fyw bywyd llewyrchus. Hynny yw, cymdeithas decach.

Os yw Gymru Fydd i gael ei hadeiladu, yna mae'n rhaid i ddinasyddion Cymru yn y presennol wneud mwy na mynnu ei chael, ond hefyd ei hadeiladu. Fel y dywed Erik Olin Wright: "os mai dyma fydd ein dyfodol, bydd yn cael ei gyflawni gan bobl sy'n gweithredu ar y cyd i'w gyflawni."[53]

> "Ni ellir gwahanu'r broses chwyldroadol oddi wrth yr amcan chwyldroadol. Dim ond trwy hunan-weithgaredd y gellir cyflawni cymdeithas sydd â'r nod sylfaenol o hunan-weinyddu ym mhob agwedd o fywyd...Ni ellir 'cyflwyno' rhyddid i'r unigolyn fel 'cynnyrch terfynol' y 'chwyldro'; ni ellir deddfu na dyfarnu bod y cynulliad a'r gymuned yn bodoli...Rhaid i'r cynulliad a'r gymuned godi o fewn y broses chwyldroadol; yn wir, rhaid i'r broses chwyldroadol fod y ffordd i ffurfio cynulliad a chymuned, a hefyd dinistrio pŵer, eiddo, hierarchaeth ac ecsbloetio." - Murray Bookchin[54]

Rhaid inni beidio ag aros am chwyldro, rhaid inni ei greu, trwy ddechrau meddwl yn annibynnol, a gweithredu'n annibynnol, a thyfu'n annibynnol yn y craciau sy'n ymddangos ar hyn o bryd yn system gyfalafol Prydain. Yn fyr, rhaid inni ddechrau sefydlu Cymru Fydd nawr.

---

[53] Erik Olin Wright, Envisioning Real Utopias (t370)
[54] Murray Bookchin, Post-Scarcity Anarchism (tt11-12)

Darllen pellach

Barnham, Keith, 2014, *The Burning Answer: A User's Guide to the Solar Revolution*, W&N
Bookchin, Murray, 2004, *Post-Scarcity Anarchism*, AK Press
Biehl, Janet, 2015, *Ecology or Catastrophe: The Life of Murray Bookchin*, Oxford University Press
Hooks, Bell, 1994, *Love as the Practice of Freedom, Outlaw Culture: Resisting Representations,* Routledge
Klein, Naomi, 2008, *The Shock Doctrine: The Rise of Disaster Capitalism*, Penguin
Kropotkin, Peter, 1902, *Mutual Aid: A Factor in Evolution*, Freedom Press
Öcalan, Abdullah, 2012, *War and Peace in Kurdistan*, Transmedia Publishing
Öcalan, Abdullah, 2015, *Democratic Confederalism*, Transmedia Publishing
Öcalan, Abdullah, 2017, *The Political Thought of Abdullah Öcalan: Kurdistan, Woman's Revolution and Democratic Confederalism*, Pluto Press
Piketty, Thomas, 2014, *Capital in the Twenty-First Century*, Harvard University Press
Price, Adam, 2018, *Wales - The First and Final Colony*, Y Lolfa
Richards, Rhuanedd, *Gwladgarwr Gwent*, Y Lolfa
Thomas, R. S., 2009, *Identity, Environment, Deity*, Manchester University Press
Wilkinson, Richard, and Pickett, Kate, 2009, *The Spirit Level - Why Equality is Better for Everyone*, Penguin
Williams, Raymond, 2008, *Who Speaks for Wales? Nation, Culture, Identity*, University of Wales Press
Wood, Leanne, 2017, *Y Newid Sydd ei Angen,* Plaid Cymru
Wright, Erik Olin, 2010, *Envisioning Real Utopias*, Verso

Wright, Erik Olin, 2019, *How to Be an Anticapitalist in the 21st Century*, Verso